

# Cyfryngau’r Genedl

Cymru 2026



Cyhoeddwyd 29 Gorffennaf 2026

# Cynnwys

## Adran

Trosolwg....3
Y cyfryngau yn eu cyd-destun....5
Teledu a fideo....12
Radio a sain....39

# Trosolwg

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn o *Gyfryngau'r Genedl: Cymru* yn archwilio tueddiadau allweddol ar draws y sector cyfryngau ac yn archwilio sut mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael eu gwasanaethu. Rydym yn cymryd dull traws-blatfform, gan gwmpasu teledu a radio sy'n cael eu darlledu ochr yn ochr â gwasanaethau digidol fel ffrydio fideo a sain ar-lein.

Yn newydd eleni, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys dadansoddiad o berchnogaeth dyfeisiau ac arferion defnydd cyfryngau ehangach, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer ein hasesiad o'r sectorau teledu a fideo a radio a sain. Mae'r adroddiad yn tynnu ar ystod o ffynonellau data, gan gynnwys gwybodaeth a gasglwyd yn uniongyrchol gan ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig (sy'n cwmpasu allbwn, gwariant a refeniw), ymchwil defnyddwyr Ofcom ei hun, a data Barb a RAJAR (ar gyfer defnydd cynulleidfa).

Yn ogystal â'r adroddiad hwn yng Nghymru, cyhoeddir adroddiadau ar wahân gan Genhedloedd y Cyfryngau ar gyfer y DU cyfan, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

## Canfyddiadau allweddol:



**Gwelodd 63% o bobl yng Nghymru newyddion neu wybodaeth am etholiad Senedd Cymru ar y teledu.**

Gwelodd 34% newyddion a gwybodaeth am yr etholiad ar-lein.

**Cynyddodd gwylio BVoD 39% ymhlith oedolion 25–34 oed.**

***KPop Demon Hunters* oedd y teitl a gafodd ei wylio fwyaf yng Nghymru.**

Cyfartaledd o 1.3m o wylwyr ar y teledu.



**Mae 74% o bobl yng Nghymru yn gwylio teledu darlledu bob wythnos, yr uchaf o holl wledydd y DU.**



**Y gwasanaeth a ddefnyddir fwyaf ar gyfer ffrydio cerddoriaeth yw Spotify, gyda 44% o oedolion yng Nghymru yn gwrando bob wythnos.**



# Y cyfryngau yn eu cyd-destun

## Cyflwyniad

Mae pobl yn defnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau, ar draws nifer o fformatau a dyfeisiau. Yn yr adran hon rydym yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data i archwilio perchnogaeth dyfeisiau a'r defnydd o gyfryngau gan bobl yng Nghymru, gan roi cefndir i'n dadansoddiad o'r sector teledu a fideo, a'r sector radio a sain.

Mae newyddion yn hanfodol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am eu hardal leol, Cymru, y DU a thu hwnt. Rydym yn edrych ar ffynonellau newyddion i bobl yng Nghymru a hefyd yn cyflwyno rhai canfyddiadau ar ddefnydd pobl o newyddion mewn perthynas ag etholiad Senedd Cymru yn 2026.

## Cyfryngau a dyfeisiau

### Mae dros wyth oedolyn o bob deg yng Nghymru yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol o leiaf unwaith y mis

Mae pobl yn ymgysylltu ag amrywiaeth o weithgareddau'n ymwneud â'r cyfryngau, gan ddewis cyfrwng, llwyfan a chynnwys sy'n cyd-fynd â'u hwyliau a'u diddordebau presennol. Yng Nghymru, mae 70% o oedolion yn gwrando ar radio byw ar set radio a 66% o oedolion yn gwylio teledu byw ar set deledu o leiaf unwaith y mis.[1] Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol (84%) a gwylio gwasanaeth fideo ar-alw (VoD) (80%) yn fwy cyffredin byth, gyda 65% yn gwylio fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) yn benodol. Mae dros hanner pobl Cymru yn chwarae gêm fideo neu'n darllen llyfr wedi'i argraffu o leiaf unwaith y mis.

[1] Rydym yn defnyddio ffigurau cyrhaeddiad misol o arolwg IPA Touchpoints gan fod hyn yn ein galluogi i gymharu cyrhaeddiad rhwng gwahanol fathau o gyfryngau. Gall y rhain fod yn wahanol i'r ffigurau cyrhaeddiad eraill sy'n benodol i'r cyfryngau neu'r diwydiant yn yr adroddiad hwn, fel y rhai ar gyfer teledu (Barb) a radio (RAJAR), ac efallai nad oes modd cymharu'n uniongyrchol â nhw.

**Ffigur 1: Cyrhaeddiad misol gweithgareddau cyfryngau penodol yn ôl oedolion yng Nghymru: 2025/26**




*Ffynhonnell: IPA TouchPoints SuperHub 2026.*

## Mae mwy nag un o bob tair aelwyd yng Nghymru yn derbyn gwasanaeth lloeren neu gebl y telir amdano

Roedd cyfran yr aelwydydd yng Nghymru ag o leiaf un set deledu yn gweithio yn 96% yn Ch1 2026, ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 93%. Gostyngodd cyfran yr aelwydydd sy'n derbyn gwasanaethau lloeren neu gebl traddodiadol y telir amdanynt ychydig i 34%, i lawr o 36% yn 2025, ond dyma'r ganran uchaf o blith holl wledydd y DU - uwch na chyfartaledd y DU, sef 30%. Roedd 29% o aelwydydd yn cael gwasanaethau lloeren Sky y telir amdanynt - yr uchaf o hyd o blith holl wledydd y DU, o gymharu â 21% ledled y DU.

Cynyddodd nifer yr aelwydydd sy'n derbyn gwasanaethau teledu Protocol Rhyngrwyd (IPTV), sef gwasanaethau teledu sy'n cael eu darparu dros y rhyngrwyd yn lle erial, lloeren neu chysylltiad cebl, o 7% yn Ch1 2025 i 10% yn Ch1 2026. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn dal yn aelwydydd EE TV (4.2%), ond roedd mynediad aelwydydd at Sky Stream wedi cynyddu o ganran fach iawn yn Ch1 2025 (<1%) i 3.6% yn Ch1 2026.

**Ffigur 2: Y nifer sy'n defnyddio llwyfannau teledu yng Nghymru: Ch1 2026**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu Barb, Ch1 2026. Mae 'gwasanaethau DTT yn unig' yn cynnwys aelwydydd sydd ag erial yn unig ac nid cebl, lloeren nac IPTV. Mae IPTV yn cynnwys EE TV, TalkTalk, YouView, Sky Stream a Freely.*

## Perchnogaeth setiau teledu sydd wedi'u cysylltu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu

Mae gan naw o bob deg (90%) o aelwydydd yng Nghymru ffôn clyfar, sydd fwy neu lai yn unol â chyfartaledd y DU, sef 92%. Mae gan dair o bob pedair aelwyd (76%) o leiaf un set deledu sydd wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â'r rhyngrwyd,[2] sydd hefyd yn agos at gyfartaledd y DU sef 72%.

Y ganran sy'n berchen ar gonsol gemau[3] yw'r uchaf o blith holl wledydd y DU, sef 27%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 25%. Consol PlayStation yw'r mwyaf cyffredin, mewn 14% o aelwydydd, ac yna XBOX mewn 12%. Mae mwy o aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar chwaraewyr DVD neu Blu-ray hefyd nag aelwydydd mewn rhannau eraill o'r DU. Roedd gan ychydig dros draean o aelwydydd (35%) chwaraewyr o'r fath o gymharu â chyfartaledd y DU, sef 28%.

[2] Nid yw hyn yn cynnwys setiau teledu sydd wedi'u cysylltu drwy ddyfeisiau eraill fel dongl neu gonsol gemau.
[3] Yn cynnwys PlayStation 2/3/4/5, XBOX/360/One/Series S/Series X, neu Nintendo Wii/Wii U/Switch/arall.

**Band Eang yng Nghymru**

Yn ôl ein hadroddiadau Cysylltu'r Gwledydd, o fis Ionawr 2026 ymlaen, roedd 96% o holl gartrefi Cymru mewn ardaloedd a oedd yn gallu cael band eang cyflym iawn (cyflymder lawrlwytho o 30 Mbit yr eiliad o leiaf). Mae band eang ffeibr llawn - sy’n cynnig y cyflymderau cyflymaf - bellach ar gael i 81% o aelwydydd yng Nghymru, i fyny o 74% ym mis Ionawr 2025. Cynyddodd y nifer sy’n defnyddio band eang ffeibr llawn o 39% ym mis Gorffennaf 2024 i 49% ym mis Gorffennaf 2025.

Cynyddodd y defnydd o gysylltedd lloeren hefyd; cynyddodd nifer tanysgrifwyr Starlink yng Nghymru i dros 7,500 yn 2025 o tua 5,000 yn 2024.

# Newyddion

## BBC One yw’r ffynhonnell newyddion fwyaf cyffredin o gael mynediad at newyddion yng Nghymru

Canfu Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion mai BBC One yw’r ffordd fwyaf cyffredin o gael gafael ar newyddion ymysg pobl yng Nghymru, gyda 57% o’r ymatebwyr yng Nghymru yn dweud eu bod wedi’i ddefnyddio yn ystod y mis diwethaf ar gyfer newyddion. Dilynwyd hyn gan Google Search (55%)[4], Facebook (52%) ac ITV1 (40%). Gwefan neu ap BBC News oedd y wefan neu’r ap darlledwr a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer newyddion gan bobl yng Nghymru - defnyddiwyd gan 27% o’r ymatebwyr. Heart oedd yr orsaf radio a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer newyddion (22%), ac yna BBC Radio 1 (21%). The Sun / Sun on Sunday oedd y brand papur newyddion mwyaf poblogaidd, a ddefnyddiwyd gan 18% o bobl yng Nghymru yn ystod y mis diwethaf ar gyfer newyddion. Dywedodd saith deg saith y cant o’r rheini yng Nghymru eu bod wedi defnyddio unrhyw un o ffynonellau newyddion y BBC ar draws ei arlwy newyddion teledu, ar-lein a radio, a dywedodd 50% o’r rheini yng Nghymru eu bod wedi defnyddio unrhyw ffynhonnell ITV.

[4] Newidiwyd methodoleg yr arolwg yn Arolwg Cael Gafael ar Newyddion eleni, i ofyn yn gyntaf am ffyrdd o gael gwybodaeth neu adloniant yn fwy cyffredinol, ac yna i ofyn am ffyrdd penodol o gael gafael ar newyddion. Gwnaed hyn er mwyn cofnodi’n well sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion goddefol a damweiniol a allai ddigwydd yn ystod bywyd bob dydd heb iddynt o reidrwydd gael gafael ar wasanaethau newyddion yn fwriadol. Mae hyn wedi golygu bod llwyfannau fel Google Search yn amlwg iawn fel ffyrdd o gael gafael ar newyddion yn gyffredinol, er na soniwyd amdanynt pan ofynnwyd, er enghraifft, am y ffynonellau newyddion pwysicaf. Ni ddylid cymharu'r data’n uniongyrchol â data blynyddoedd blaenorol.

**Ffigur 3. Yr 20 prif ffordd o gael gafael ar newyddion yn ystod y mis diwethaf yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2026. Cwestiwn: D1-D22. Pa rai o'r [MATH O GYFRYNGAU] canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi gweld neu glywed newyddion arnynt yn ystod y mis diwethaf? *Mae NET BBC yn cynnwys teledu'r BBC/ BBC iPlayer, apiau/gwefannau'r BBC, BBC Radio, BBC Sounds. Sylfaen: Pob oedolyn yng Nghymru (600).*

Nodwyd mai BBC One oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o gael gafael ar newyddion am Gymru, gyda 37% o'r ymatebwyr yng Nghymru yn dweud eu bod wedi ei ddefnyddio ar gyfer y math hwn o newyddion. Dilynwyd hyn gan ITV1 (24%) a Facebook (14%). Roedd 50% o bobl Cymru yn defnyddio un o ffynonellau newyddion y BBC am Gymru, ac roedd prif ffynonellau newyddion y BBC am Gymru yn cynnwys BBC One (37%), BBC News Channel (10%), BBC News Ar-lein (6%) a BBC Radio Wales (5%).

**Ffigur 4: Y deg prif ffordd o gael gafael ar newyddion am Gymru**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2026. Cwestiwn: F2. O edrych ar yr holl ffynonellau newyddion rydych chi wedi gweld neu glywed newyddion arnynt yn ystod y mis diwethaf, ar ba rai o'r rhain ydych chi wedi gweld neu glywed newyddion am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru? *Mae NET BBC yn cynnwys teledu'r BBC/ BBC iPlayer, apiau/gwefannau'r BBC, BBC Radio, BBC Sounds. Sylfaen: Cymru (600).*

## Y newyddion a gwybodaeth am etholiad Senedd Cymru a wyliwyd fwyaf cyffredin ar y teledu

Ar 7 Mai 2026, cynhaliwyd etholiadau ar gyfer Senedd Cymru, Senedd yr Alban a 136 o awdurdodau lleol a phum maeryddiaeth mewn rhannau o Loegr, y set fwyaf o etholiadau yn y DU ers Etholiad Cyffredinol 2024.

Aeth oedolion yng Nghymru i bleidleisio i ethol 96 Aelod o Senedd Cymru (AS) ar draws 16 etholaeth aml-Aelod, y tro cyntaf i'r system hon gael ei defnyddio ar gyfer etholiadau Cymru. Canfu ein hymchwil fod 95% o oedolion yng Nghymru yn ymwybodol o'r etholiadau ar gyfer Senedd Cymru. Yn gyffredinol, roedd 63% o bobl yng Nghymru a oedd yn ymwybodol o'r etholiadau wedi gweld newyddion a gwybodaeth amdanynt ar y teledu, ac roedd 33% wedi gweld newyddion a gwybodaeth am yr etholiadau ar-lein.

**Ffigur 5: Y llwyfannau lle gwelwyd newyddion a gwybodaeth am yr etholiadau ar 7 Mai 2026**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom o Etholiadau Lleol. Q3A. Gan feddwl am yr wythnosau cyn [yr etholiad] drwy ba rai o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, y gwelsoch chi newyddion a gwybodaeth am yr etholiad? Sylfaen: Pawb a oedd yn ymwybodol o'r etholiadau ar 7 Mai: (5550), i gyd yn ymwybodol o etholiadau yn [rhanbarth]: Lloegr: (3566), Yr Alban: (1007), Cymru: (977).*

Dywedodd bron i dri chwarter (74%) yr ymatebwyr  oedd yn ymwybodol o'r etholiad fod taflen wleidyddol yn ffynhonnell newyddion neu wybodaeth. Roedd hysbysebion gwleidyddol ar-lein hefyd yn rhan greiddiol o'r gwaith o roi gwybodaeth i bobl Cymru am etholiadau mis Mai (27%).

Cafodd pobl afael ar newyddion am yr etholiadau amlaf ar y teledu, ac roedd 63% o'r rheini yng Nghymru yn ymwybodol o'r etholiad, er bod y gwylio'n dameidiog ar draws nifer o ffynonellau newyddion teledu: prif raglenni newyddion teledu'r BBC (34%), *BBC Wales Today* (31%), *ITV Cymru Wales* (15%), ac eraill. Ar gyfer ITV, gwelwyd y gwrthwyneb, gyda mwy o ymatebwyr yn nodi eu bod yn cael eu newyddion am yr etholiad gan *ITV Cymru* nag o raglenni newyddion ITV ledled y DU. Wrth edrych ar ffyrdd eraill o gael gafael ar newyddion, roedd 14% wedi gweld darpariaeth o'r etholiad ar y cyfryngau cymdeithasol, 13% ar BBC News Ar-lein, a dywedodd 4% eu bod wedi'i gweld mewn unrhyw bapur newydd o Gymru (wedi'i argraffu neu ar-lein).

**Ffigur 6: Y 10 prif ffordd o gael gafael ar newyddion a gwybodaeth am yr etholiad ym mis Mai 2026 yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom o Etholiadau Lleol. Q3A. Gan feddwl am yr wythnosau cyn etholiadau Senedd Cymru , drwy ba rai o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, y gwelsoch chi newyddion a gwybodaeth am yr etholiad? Sylfaen: Pawb a oedd yn ymwybodol o'r etholiad ar 7 Mai yng Nghymru (977).*

# Teledu a fideo

## Datblygiadau yn y farchnad

### BBC Cymru

Gwnaeth newyddion a materion cyfoes parhau i gyfrif am y gyfran fwyaf o allbwn BBC Cymru Wales, sy'n canolbwyntio'n gynyddol ar newyddiaduraeth ddigidol ac aml-lwyfan. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys *BBC Wales Today*, *Politics Wales*, *Walescast* a *BBC Wales Investigates*. Roedd sylwar etholiad Senedd Cymru yn ffocws mawr o'i raglennu gwleidyddol

Mae'r BBC hefyd yn darlledu rhaglenni drama, ffeithiol ac adloniant, gan gynnwys *Mr Burton and Death Valley*, *SOS Extreme Rescues*, *Saving Lives in Cardiff* a *Crash Detectives*. Gwnaeth BBC Cymru adrodd bod cynulleidfa wythnosol gyfartalog chwaraeon ar-lein o tua 2.5 miliwn o ddefnyddwyr, wedi'i chefnogi gan ddarpariaeth o bêl-droed dynion a menywod.

### Partneriaethau'r BBC

Cyhoeddodd BBC Cymru gynlluniau i gomisiynu a dosbarthu mwy o gynnwys ar gyfer YouTube, fel rhan o bartneriaeth â'r llwyfan, gan ehangu ei gynnwys. Yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys cronfa ddatblygu ar gyfer cynlluniau peilot adloniant ffeithiol sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc 16-24 oed ac sydd wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer YouTube.

Ym mis Ionawr 2026, cyhoeddodd y BBC ac S4C bartneriaeth ffrydio newydd, bydd yn rhoi mwy o amlygrwydd i gynnwys S4C ar BBC iPlayer yng Nghymru, gyda rhywfaint o gynnwys hefyd ar gael ledled y DU. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys integreiddio agosach rhwng gwasanaethau a nodweddion  fel nifer o ffrydiau byw, personoli gwell, ac isdeitlau Cymraeg a Saesneg.

### Arloesi ym maes deallusrwydd artiffisial (AI)

Mae BBC Cymru wedi bod yn rhan o nifer o brosiectau peilot sy'n ymwneud â AI, gan gynnwys gwaith gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a thîm AI Cyfrifol y BBC, gan archwilio sut gallai offer deallusrwydd artiffisial gefnogi dysgwyr Cymraeg.

### S4C

Ym mis Medi 2025, lansiodd S4C ei strategaeth bum mlynedd newydd, gyda ffocws ar dyfu cynulleidfaoedd, gwasanaethau digidol, a gweithio gyda phartneriaid. EhangoddS4C ei bresenoldeb ar  lwyfannau digidol, gan weithio gyda YouTube ar gynnwys newyddion a ffilmiau comedigwreiddiol.

Roedd rhaglenni wedi anelu at gynulleidfaoedd iau yn cynnwys *Hafiach*, drama i bobl ifanc yn eu harddegau, yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc 13-16 oed, ac roedd *Yr Alwad* yn ddrama fertigol wedi'i chreuar gyfer TikTok. Roedd rhaglenni plant, yn cynnwys *Parc Glan Gwil* a *Help Llaw*, ac fe ddaeth *Bluey* (Blŵi) ar gael yn y Gymraeg.

Darparodd S4C sylw etholiad y Senedd yn 2026, oeddyn cynnwys dadl arweinwyr y pleidiau, rhaglenni canlyniadau'r etholiad a rhifynnau arbennig o *Y Byd yn ei Le* , Roedd sylw am yr etholiad ar gael trwywasanaethau newyddion digidol Newyddion S4C.

Roedd chwaraeon yn dal yn rhan bwysig o allbwn S4C, ac yn cynnwys darllediadau am ddim o bêl-droed a rygbi rhyngwladol a domestig. Roedd hyn yn cynnwys  twrnamaint Ewro Merched UEFA 2025, y tro cyntaf i fenywod Cymru gystadlu mewn twrnamaint rhyngwladol mawr. Fe wnaeth S4C hefyd ddarlledu diwgyddiadau chwaraeon eraill fel y Tour de France, ralïau Pencampwriaeth Rali'r Byd, a Chyfres Triathlon Cymru.

Yn 2026, lansiodd S4C ac Am, y llwyfan diwylliant digidol Cymraeg ar-lein a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Cymru Greadigol, Gronfa Ffilmiau Cymunedol a fydd yn ariannu 15 ffilm fer yn Gymraeg sy'n ymdrin â phynciau sy'n ymwneud â chymunedau lleol. Bydd y cynnwys ar gael ar Am yn ogystal ag ar lwyfannau digidol S4C.

### ITV Cymru

Parhaodd ITV Cymru i ddarparu allbwn rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Gyda sylw ar etholiadau ySeneddgyda phedwar pôl a gynhyrchwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a YouGov.

Parhaodd ITV Cymru i ddatblygu newyddiaduraeth ddigidol ar draws ei lwyfannau a thrwy gynnwys ar gyfer *Hansh Dim Sbin* S4C. Gwnaeth y darpariaeth etholiadol  gynnwys amrywiaeth o fformatau - cynnwys ar-lein fel *Chippy Chats* yn ogystal â rhaglenni ffurf hirach fel cyfweliadau arweinwyr y pleidiau ar *Wales Decides: The Interviews*. Adroddodd ITV Cymru ei sylw etholiad i fwy na saith miliwn o wylwyr ar lwyfannau cymdeithasol yn unig.

Roedd rhaglenni ffeithiol  yn cynnwys Proud a The Hospice: Caring to the End a chyfres newydd o *Vanished Wales* sy'n datgelu straeon am leoedd a chymunedau coll ledled Cymru.  Cynhyrchodd ITV Cymru Wales gynnwys materion cyfoes ar gyfer S4C yn cynnwys *Y Byd yn ei Le* a  *Y Byd ar Bedwar*.

### Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol, asiantaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiannau creadigol, wedi cefnogi amrywiaeth o gynyrchiadau , gan gynnwys *Under Salt Marsh Young Sherlock*, a *The Other Bennet Sister*.

O ran ffilmiau, cefnogodd Cymru Greadigol *Mad Fabulous, Mr Burton* a'r ffilm nodwedd Gymraeg, *Effi*.

Cefnogodd Cronfa Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru Greadigol nifer o brosiectau newyddiaduraeth strategol, gan gynnwys adroddiad Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd ar ddarpariaeth y cyfryngau o ymgyrchoedd etholiadol y DU yn 2026.

## Tueddiadau gwylio

### Cyfanswm gwylio fideos yn y cartref

#### Er gwaethaf gostyngiad yn 2025, roedd pobl yng Nghymru yn gwylio mwy o gynnwys fideo bob dydd nag unrhyw wlad arall yn y DU

Roedd pobl yng Nghymru wedi gwylio 4 awr 52 munud o gynnwys fideo gartref bob dydd ar gyfartaledd yn 2025, yr uchaf ymysg gwledydd y DU unwaith eto, er gwaethaf gostyngiad mawr o 16 munud o un flwyddyn i'r llall. Roedd cynnwys teledu darlledwyr - gan gynnwys teledu byw, teledu wedi'i recordio, a fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) - wedi gostwng 14 munud ond roedd yn dal i gael ei wylio fwy nag mewn unrhyw wlad arall, gan gyfrif am 55% o gyfanswm yr amser gwylio (2 awr 41

munud). Gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn teledu byw, i lawr 11 munud i 1 awr 43 munud, a gwelwyd gostyngiad mewn teledu wedi'i recordio, i lawr 3 munud i 27 munud. Roedd gwylio BVoD wedi cynyddu llai nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i fyny 1 funud i 31 munud, sy'n uwch na'r gwledydd eraill.

Cymru oedd â'r lefelau gwylio isaf o lwyfannau rhannu fideos (VSPs) o'r gwledydd datganoledig, gyda gwylwyr yn gwylio 50 munud ar gyfartaledd, sy'n gynnydd o 3 munud o un flwyddyn i'r llall. Roedd fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD, e.e. Netflix) a fideo ar-alw wedi'i ariannu gan hysbysebion (AVoD e.e. Pluto TV) yn dal i gael eu gwylio fwy yng Nghymru nag yn y gwledydd eraill, sef 48 munud y dydd ar gyfartaledd, 3 munud yn fwy nag yn 2024, ac yn cyfrif am 17% o'r gwylio.

**Ffigur 7: Cyfanswm y munudau gwylio fideos y dydd yn y cartref fesul person, yn ôl llwyfan a gwlad: 2025**




*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith Wi-Fi y cartref. Mae 'cynnwys darlledwyr' yn golygu teledu byw, chwarae'n ôl teledu wedi'i recordio a BVoD. Mae 'defnydd arall o setiau teledu' yn cynnwys gwylio SVoD/AVoD/VSP na ellir eu mesur yn bendant, yn ogystal â rhai sianeli darlledu heb eu mesur, rhywfaint o bori ar yr Amserlen Rhaglenni Electronig/dewislen, gwylio pan fydd y sain yn dawel, copïo neu ddosbarthu anghyfreithlon, setiau bocs heb eu mesur/cynnwys talu-i-wylio, a gweithgarwch rhyngrwyd heb fod yn fideo drwy gyfrifiadur personol neu ddyfais arall sydd wedi'i chysylltu â'r teledu. Nid yw SVoD /AVoD yn cynnwys gwylio NOW, sy'n gynwysedig o fewn BVoD ynghyd â Sky Go/Sky TV On Demand (mae'r ddau wasanaeth hyn yn ffrydio'r un cynnwys, felly ni ellir gwahanu gwylio wedi'i fesur).*

## Gwylio teledu ddarlledu yng Nghymru

### Ar ôl bod yn sefydlog am ddwy flynedd, gostyngodd lefelau gwylio yng Nghymru yn 2025

Roedd y lefelau gwylio y darlledwyr yng Nghymru 8% yn is yn 2025 nag yn 2024, yn unol â chyfartaledd y DU, ac roedd y gwylio dyddiol, ar gyfartaledd, gan bob unigolyn dros 4 oed yng Nghymru yn 2 awr 41 munud. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae Cymru'n parhau i gofnodi'r lefelau gwylio uchaf o blith holl wledydd y DU - sefyllfa y mae wedi'i dal ers 2023. Fodd bynnag, ers 2022, mae gwylio dyddiol ar gyfartaledd yng Nghymru wedi gostwng 11 munud.

**Ffigur 8: Cyfartaledd y munudau gwylio teledu darlledwyr y dydd, fesul person, yn ôl gwlad: 2022-2025**




*Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwyliwyd. Unigolion dros 4 oed, ardaloedd yr BBC, chwarae byw ac wedi'i recordio a BVoD.*

## Roedd gwylio BVoD wedi cynyddu 39% ymysg oedolion 25-34 oed

Gwelodd pob grŵp oedran yng Nghymru ostyngiad yn yr amser a dreuliwyd yn gwylio teledu a ddarlledwyd yn 2025. Roedd y gostyngiad mwyaf ymysg oedolion ifanc 16-24 oed, y gostyngodd eu lefelau gwylio 37% o gymharu â 2024, i lawr i 33 munud y person y dydd. Cafodd y gostyngiad hwn ei sbarduno gan ostyngiadau mewn teledu llinol (chwarae byw ac wedi'i recordio), a oedd wedi gostwng 45% i 17 munud, a gwylio BVoD, a oedd wedi gostwng 28% i 16 munud y dydd.

I'r gwrthwyneb, roedd oedolion hŷn dros 55 oed wedi gweld gostyngiad cyffredinol llawer llai o 4%, gyda'r gwylio cyfartalog yn 5 awr 17 munud y dydd. Roedd y gostyngiad hwn yn llwyr oherwydd gostyngiad o 6% mewn teledu llinol, wrth i'w lefelau gwylio BVoD gynyddu 15% i 34 munud y dydd.

Er bod gwylio teledu llinol wedi gostwng ar draws pob demograffeg, roedd gwylio BVoD wedi cynyddu ymysg nifer o grwpiau, gan gynnwys pobl 25-34 oed (dros 39%), plant 4-15 oed (dros 28%), ac oedolion dros 55 oed, er nad yw'r cynnydd hwn yn ddigon i wrthbwyso'r gostyngiad mewn teledu llinol.

**Ffigur 9: Cyfartaledd y munudau gwylio teledu darlledwyr y dydd yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran: 2024-2025**




*Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwelwyd.*

## Mae cyrhaeddiad teledu sy'n cael ei ddarlledu yn dal yn uwch yng Nghymru nag ym mhob Gwlad arall

Roedd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog teledu darlledwyr (byw, wedi'i recordio a BVoD) yn uwch yng Nghymru nag yn y gwledydd eraill, sef 74% yn 2025. Er bod pob gwlad wedi gweld gostyngiad yn 2025 o'i gymharu â 2024, Cymru welodd y gostyngiad lleiaf, i lawr dau bwynt canran yn unig, sy'n is na gostyngiad cyfartalog y DU, sef tri phwynt canran.

Roedd y gostyngiad cyffredinol yng nghyrhaeddiad darlledwyr wedi'i sbarduno'n llwyr gan ostyngiad mewn teledu llinol, a oedd wedi gostwng chwech phwynt canran i 55%. I'r gwrthwyneb, cynyddodd cyrhaeddiad BVoD tair phwynt canran i 49% ymysg unigolion dros 4 oed yng Nghymru - y cynnydd mwyaf o blith unrhyw wlad.

**Ffigur 10: Cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol (%) teledu darlledwyr, yn ôl gwlad: 2022-2025**




*Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwyliwyd. Unigolion dros 4 oed, ardaloedd yr BBC, chwarae byw ac wedi'i recordio a BVoD. Meini prawf cyrhaeddiad 15+ munud yn olynol. Sylwer: Ni ddangosir ffigurau Lloegr ar y siart – maent yn cyfateb i'r data ar gyfer y DU cyfan.*

## Y BBC sy'n dal i ddenu'r gyfran fwyaf o wylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yng Nghymru

Yn 2025, roedd y PSBs a'u sianeli portffolio, gan gynnwys gwasanaethau BVoD, gyda'i gilydd yn cyfrif am gyfran o 72% o gyfanswm y gynulleidfa a wyliodd teledu darlledwyr yng Nghymru. Y BBC oedd y prif grŵp PSB o hyd, o ran nifer y gynulleidfa a rennir, gan ddenu 35% o'r gynulleidfa teledu sy'n cael ei ddarlledu; ei gyfran uchaf o unrhyw un o wledydd y DU. Mae hwn yn tanlinellu rôl arbennig o amlwg y BBC yng Nghymru.

**Ffigur 11: Cyfran (%) y gwylio teledu darlledwyr ar gyfer sianeli'r PSBs, yn ôl gwlad: 2025**




*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwelwyd, (pob unigolyn dros 4 oed). Mae'r prif sianeli'n cynnwys sianeli +1 lle bo hynny'n berthnasol. Mae grwpiau portffolio yn cynnwys yr holl sianeli eraill ar wahân i'r brif sianel, ynghyd â gwasanaethau BVoD.*

## Defnyddio gwasanaethau BVoD ac SVoD

Yn Ch1 2026, roedd cyfran yr aelwydydd yng Nghymru a oedd wedi tanysgrifio i o leiaf un gwasanaeth SVoD wedi gostwng ychydig, gyda 69% o aelwydydd wedi tanysgrifio, o gymharu â 70% yn Ch1 2025.[5]

Netflix oedd y gwasanaeth SVoD yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn tanysgrifio iddo yng Nghymru o hyd, ac roedd yn bresennol mewn 61% o aelwydydd, i fyny ychydig o 60% flwyddyn ynghynt. Amazon Prime Video oedd yr ail wasanaeth mwyaf poblogaidd mewn aelwydydd, er ei fod wedi gostwng o 47% i 45% dros y cyfnod. Cadwodd Disney+ ei safle fel y trydydd darparwr mwyaf, gyda thanysgrifiadau mewn 26% o gartrefi. Roedd gwasanaethau SVoD llai hefyd wedi cynnal eu troedle yn y farchnad yng Nghymru, gan gynnwys Paramount+ (14% o gartrefi), Discovery+ (11%) ac Apple TV+ (8%).

Yn 2025, roedd y BBC yn cyfrif am 19% o'r holl wylio fideos yn y cartref ar draws dyfeisiau gan bob unigolyn. Daeth y rhan fwyaf o'r gwylio hwn o deledu llinol, a gyfrannodd 14% o gyfran y BBC, i lawr un pwynt canran o un flwyddyn i'r llall, tra bod BVoD wedi cynyddu un pwynt canran, gan gyfrif am

[5] Arolwg Sefydlu Barb, Ch1 2025 a Ch1 2026, yn cynnwys aelwydydd sy'n cael tanysgrifiadau am ddim a thanysgrifiadau y telir amdanynt.

5% o’r gwylio. Denodd ITV 11% o’r gwylio, a oedd hefyd wedi’i sbarduno’n bennaf gan ei sianeli llinol a oedd wedi gostwng un pwynt canran, tra bod BVoD wedi aros yn sefydlog. Roedd Sky, Channel 4 a Channel 5 i gyd wedi aros yn sefydlog o un flwyddyn i’r llall.

Roedd Netflix yn cyfrif am 9% o gyfanswm y gwylio fideos yn y cartref, i fyny un pwynt canran ers 2024. Gwelwyd gostyngiad o un pwynt canran yn Disney+, tra bod Amazon Prime Video wedi aros yn sefydlog.

Roedd YouTube yn cyfrif am 14% o’r gwylio, i fyny dau bwynt canran o un flwyddyn i’r llall, ac roedd TikTok a Twitch yn dal yn cyd-fynd â ffigurau 2024.

**Ffigur 12: Cyfran y cyfanswm gwylio fideos ar gyfer gwasanaethau unigol yng Nghymru; pob unigolyn dros 4 oed: 2025**




*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydweithiau Wi-Fi y cartref, unigolion dros 4 oed. Mae ‘llinol’ yn cynnwys deunydd wedi'i ddarlledu sy'n cael ei wylio'n fyw neu drwy chwarae recordiadau. Mae gwasanaethau darlledwyr yn cynnwys pob sianel portffolio.*

## Mae bron dau o bob tri pherson yng Nghymru yn gwylio YouTube bob wythnos, gyda chyfran gynyddol yn gwylio ar set deledu

Roedd 61% o unigolion dros 4 oed yng Nghymru yn gwylio o leiaf dair munud o YouTube yr wythnos gartref, ar draws pob dyfais, yn 2025. Cynyddodd y ffigur hwn i 67% ymysg oedolion 16-34 oed, er bod hyn wedi gostwng ychydig o 69% yn 2024.

**Ffigur 13: Cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol (%) YouTube, yn ôl gwlad: 2025**




*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu adyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith Wi-Fi y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol.*

Treuliodd unigolion yng Nghymru 41 munud ar gyfartaledd yn gwylio YouTube ar draws pob dyfais yn y cartref yn 2025. Roedd yr amser cyfartalog yn gwylio YouTube ar set deledu wedi cynyddu 20%, o 15 munud y dydd yn 2024 i 18 munud y dydd yn 2025. Ar draws 2025, ymysg pob unigolyn, roedd 44% o'r gwylio YouTube yn y cartref yng Nghymru yn cael ei wneud ar set deledu, i fyny o 41% yn 2024.

**Ffigur 14: Cyfartaledd y munudau gwylio YouTube y dydd fesul person, yn ôl gwlad: 2025**




*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith Wi-Fi y cartref.*

Yn ôl Arolwg Fideo Ar-alw Ofcom, fideos hyd at 15 munud o hyd oedd y math mwyaf poblogaidd o gynnwys a oedd yn cael ei wylio ar YouTube yng Nghymru, gyda 55% o oedolion a phobl ifanc (dros 13 oed) yng Nghymru yn dweud eu bod wedi gwylio'r math hwn o gynnwys yn ystod y tri mis diwethaf. Honnodd pedwar o bob deg (41%) o'r un grŵp eu bod wedi gwylio fideos yn hirach na 15 munud, a honnodd yr un nifer (41%) eu bod wedi gwylio YouTube Shorts yn ystod yr un cyfnod, sy'n

awgrymu, yn unol â thueddiadau ar draws y gwledydd, er bod cynnwys ffurf fer yn parhau i fod yn boblogaidd, bod fideos hirach yn dal i apelio at lawer o wylwyr.[6]

## Y genres, y rhaglenni a'r ffilmiau gafodd eu gwylio fwyaf yng Nghymru

Yng Nghymru, roedd canran y bobl dros 4 oed a oedd yn gwylio'r genre plant ar deledu darlledwyr wedi cynyddu mwy nag unrhyw genre arall yn 2025 o'i gymharu â 2024, i fyny 19% i 28 awr 47 munud ar draws y flwyddyn. Cafodd y twf hwn ei sbarduno'n llwyr gan gynnydd o 113% yn lefelau gwylio BVoD y genre, tra bod gwylio drwy chwarae byw ac wedi'i recordio wedi gostwng 36%.

Comedi welodd y gostyngiad mwyaf, gyda lefelau gwylio teledu darlledwyr yn gostwng 21% yn gyffredinol i 20 awr 53 munud. Cafodd hyn ei sbarduno gan ostyngiad o 28% mewn teledu llinol, ochr yn ochr â gostyngiad o 3% yn y lefelau gwylio BVoD.

Y Celfyddydau a Ffilmiau welodd y cynnydd mwyaf mewn  gwylio teledu llinol, gan gynyddu 7% a 6% yn y drefn honno. Fodd bynnag, gwelodd y ddau genre ostyngiad yn y lefelau gwylio BVoD - gostyngodd y celfyddydau 15% a ffilmiau 12%.

Yng Nghymru, *KPop Demon Hunters*, y ffilm deuluol wedi'i hanimeiddio ar Netflix, oedd y ffilm gafodd ei gwylio fwyaf yn 2025, gydag 1.3 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd ar setiau teledu. Roedd y deg prif deitl yn cynnwys chwe ffrydiwr, ac roedd ffilmiau'n dominyddu'r rhestr, gan gyfrif am saith teitl.

Rhaglen ddogfen untro'r BBC *Gavin and Stacey*: *A Fond Farewell* oedd yr ail deitl a gafodd ei wylio fwyaf, gydag 899,000 o wylwyr ar gyfartaledd, a *The Celebrity Traitors* oedd y pedwerydd teitl a gafodd ei wylio fwyaf, gyda 745,000 o wylwyr ar gyfartaledd ar draws BBC One a BBC iPlayer. Dilynwyd hyn gan ybennod gyntaf erioed o'r ddrama seicolegol Brydeinig *Adolescence*, gyda 719,000 o wylwyr ar Netflix ar gyfartaledd.

Roedd ffilmiau plant yn cyfrif am chwech o'r deg uchaf, gyda dwy ffilm ar y BBC, dwy ar Disney+ a'r gweddill ar Netflix. Roedd *Cars*, yr animeiddiad Disney o 2006 yn y trydydd safle gydag 847,000 o wylwyr, ar ôl cynnydd ym mhoblogrwydd y fasnachfraint yn 2025.

[6] Arolwg Fideo Ar-alw Ofcom 2026.

**Ffigur 15: Dyma oedd y deg rhaglen/ffilm gafodd eu gwylio fwyaf (y bennod wnaeth orau fesul teitl): 2025**

| Safle | Teitl | Genre | Darlledwr/ Gwasanaeth | Pennod | Cynulleidfa (miloedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | KPop Demon Hunters | Ffilmiau | Netflix | Ffilm (2025) | 1,303 |
| **2** | Gavin & Stacey: A Fond Farewell | Rhaglenni Dogfen | BBC | 2025 | 899 |
| **3** | Cars | Ffilmiau | Disney+ | Ffilm (2006) | 847 |
| **4** | The Celebrity Traitors | Adloniant | BBC | Cyfres 1, Pennod 4 | 745 |
| **5** | Adolescence | Drama | Netflix | Cyfres 1, Pennod 1 | 719 |
| **6** | The Thursday Murder Club | Ffilmiau | Netflix | Ffilm (2025) | 710 |
| **7** | Moana 2 | Ffilmiau | Disney+ | Ffilm (2024) | 685 |
| **8** | Wallace & Gromit: Vengeance Most Fowl | Ffilmiau | BBC | Ffilm (2024) | 614 |
| **9** | The Super Mario Bros. Movie | Ffilmiau | Netflix | Ffilm (2023) | 609 |
| **10** | The Snail and the Whale | Ffilmiau | BBC | Ffilm (2019) | 605 |

*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwyliwyd, pob unigolyn dros 4 oed. Setiau teledu yn unig. Pennod a berfformiodd orau fesul teitl yn seiliedig ar gyfanswm gwylio cronnus ar draws y flwyddyn gyfan. Mae ffigurau darlledwyr yn cynnwys teledu byw, chwarae recordiadau a BVoD. Dim ond dadansoddiad o setiau teledu sydd wedi cael ei ddefnyddio oherwydd bod ffigurau rhaglenni SVoD/AVoD ar gael ar gyfer setiau teledu yn unig.*

## Oedolion yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn troi at y BBC neu Netflix yn gyntaf, wrth feddwl am beth i'w wylio

Fe wnaethom ofyn i ymatebwyr i ble roedden nhw fel arfer yn troi gyntaf, pan oedden nhw'n meddwl am yr hyn roedden nhw eisiau ei wylio.[7] Dywedodd hanner yr oedolion ar-lein yng Nghymru eu bod fel arfer yn troi at ddarlledwr PSM yn gyntaf, ac yna at Netflix (26%). Roedd y rheini a holwyd yng Nghymru yr un mor debygol o droi at y BBC yn gyntaf (27%) â Netflix.

[7] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion 2025/26. Arolwg Atodol.

**Ffigur 16: Ble mae cynulleidfaoedd yn troi gyntaf wrth feddwl am beth i'w wylio**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion 2025/6. Arolwg Atodol. QA11. Wrth feddwl am beth i'w wylio, at ba un o'r gwasanaethau teledu a fideo hyn ydych chi'n troi yn gyntaf fel arfer? Sylfaen: Pob ymatebydd (3050), yr Alban (281); Cymru (253); Gogledd Iwerddon (260).*

# Agweddau cynulleidfaoedd ynghylch PSBs a BVoDs

## Bodlonrwydd ar PSBs

### Mae saith gwyliwr PSB o bob deg yng Nghymru yn fodlon ar PSBs yn gyffredinol

Yn ôl Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion Ofcom 2025/26,[8] dywedodd tua saith o bob deg (68%) o wylwyr PSB[9] yng Nghymru eu bod yn fodlon ar PSBs yn gyffredinol a dywedodd 11% eu bod yn anfodlon; nid yw 19% arall yn fodlon nac yn anfodlon. Mae hyn fwy neu lai yn unol â chanfyddiadau'r llynedd.[10] Mae ffigurau pob gwlad yn debyg i gyfartaledd y DU.11

[8] Yn 2025, yn dilyn adolygiad o'r Traciwr PSM a Traciwr Perfformiad y BBC, fe wnaeth Ofcom eu cyfuno'n un traciwr - y Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion newydd. O ganlyniad i'r uno hwn, gwnaed newidiadau i'r fethodoleg a'r holiadur. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr Adroddiad Technegol ar gyfer y traciwr newydd.
[9]Mae Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom ar gyfer 2025/26 yn diffinio gwylwyr PSB fel pawb sydd wedi gwylio sianel/gwasanaeth PSB yn ystod y chwe mis diwethaf.
[10] Mae'r tueddiadau'n ddangosol oherwydd newidiadau yn y fethodoleg.
11 Nid oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol mewn bodlonrwydd cyffredinol ar gyfer ymatebwyr yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU neu â chynulleidfaoedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Ffigur 17: Bodlonrwydd oedolion ar PSBs yn gyffredinol – cyfanswm y DU ac yn ôl gwlad: 2025/26




*Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion 2025-26. Prif Arolwg. Cwestiwn C15. A nawr, os ydych chi'n meddwl am yr HOLL ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd - hynny yw y BBC, ITV (LLOEGR) STV/ ITV (YR ALBAN) ITV Cymru Wales/ ITV (CYMRU) UTV/ ITV (GOGLEDD IWERDDON), Channel 4, Channel 5, ac S4C... Pa mor fodlon ydych chi eu bod, gyda'i gilydd, yn darparu'r gwahanol feysydd y gofynnwyd amdanynt yn y cwestiynau blaenorol? Sylfaen: Y rheini sydd wedi gwylio unrhyw sianel PSB neu wasanaeth ar-alw yn ystod y 6 mis diwethaf, Cyfanswm y DU (4684), Lloegr (2530), yr Alban (450), Cymru (385) a Gogledd Iwerddon (319).*

Pan ofynnwyd iddynt ystyried sianeli PSB yn unigol, dywedodd tua thri chwarter y gwylwyr yng Nghymru eu bod yn fodlon ar BBC One (75%) a Channel 4 (74%). Dywedodd tua saith o bob deg eu bod yn fodlon ar Channel 5 (72%), BBC Two (71%), S4C (71%) ac ITV1 (69%).

Gan ganolbwyntio ar wasanaethau BVoD, dywedodd tua wyth gwyliwr o bob deg yng Nghymru eu bod yn fodlon ar BBC iPlayer (80%) ac ITVX neu ITVX Premium (79%). Dywedodd tua thri chwarter eu bod yn fodlon ar ffrydio Channel 4 neu Channel 4+ (74%) neu ar ffrydio 5 (73%).

### Ffigur 18: Bodlonrwydd oedolion ar sianeli unigol: 2026/26




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion 2025-26. Prif Arolwg. Cwestiwn QB1. Ar raddfa 1 i 10, lle mae 1 yn golygu anfodlon iawn a 10 yn golygu bodlon iawn, yn gyffredinol pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y sianeli teledu hyn? Sylfaen: Y rheini sydd wedi gwylio [y darlledwr] yn ystod y 6 mis diwethaf: BBC One (297), Channel 4 (233), Channel 5 (232), BBC Two (190), S4C (94) ac ITV1 / ITV Cymru Wales (296).*

Yn Nhraciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant Ofcom, gwnaethom ofyn plant 8-16 oed, a rhieni/ gwarchodwyr plant iau (3 i 7 oed) a wnaeth ateb ar eu rhan, am eu safbwyntiau ar sianeli

teledu y gwasanaeathu darlledwyr cyhoeddus. [12]Gwelsom ymysg plant sy'n gwylio sianeli teledu PSB, fod ychydig dros chwech o bob deg (62%) yn dweud eu bod yn 'hoffi' sianeli teledu'r BBC, a bod dros hanner (53%) yn hoffi sianeli teledu ITV (gan gynnwys ITV Cymru) neu sianeli teledu Channel 4 (54%). Dywedodd ychydig o dan hanner (48%) eu bod yn hoffi sianeli teledu Channel 5. Gofynnwyd am farn plant am S4C mewn arolwg ar wahân, felly er nad oes modd cymharu hyn â PSBs eraill, gwelsom fod 50% o blant 7-18 oed sy'n gwylio S4C wedi dweud eu bod yn ei hoffi.

Wrth edrych ar wasanaethau BVoD unigol, dywedodd tua dwy ran o dair (65%) o blant eu bod yn hoffi BBC iPlayer. Dywedodd bron i chwech o bob deg (59%) eu bod yn hoffi ITVX ac roedd ychydig dros hanner (53%) yn hoffi gwasanaeth ffrydio Channel 4. Dywedodd tua dwy ran o bump (42%) o blant yn dweud eu bod yn hoffi gwasanaeth ffrydio Channel 5. Yn yr un modd â sianeli teledu, gofynnwyd am farn plant am S4C Clic drwy arolwg gwahanol, felly er nad oes modd ei gymharu â'r BVoDs eraill, gwelsom fod 51% o blant sy'n defnyddio S4C Clic neu'n gwylio S4C ar BBC iPlayer yn dweud eu bod yn ei hoffi.[13]

## Mae oedolion yng Nghymru o'r farn mai *newyddion dibynadwy a chywir yn y DU* yw un o elfennau pwysicaf PSBs

Gofynnodd y Traciwr PSM i bob oedolyn beth, yn eu barn nhw, oedd y tair nodwedd bwysicaf i PSBs eu darparu i gymdeithas yn gyffredinol. Roedd ychydig o dan hanner (46%) yr oedolion yng Nghymru yn cynnwys *'newyddion dibynadwy a chywir'* yn eu tair nodwedd bwysicaf, ac yna *'rhaglenni a chynnwys creadigol o ansawdd uchel'* (42%) ac '*amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys'* (37%).

## I wylwyr yng Nghymru, ystyrir bod PSBs yn darparu *rhaglenni a chynnwys creadigol o ansawdd uchel* yn dda

O ran perfformiad, mae gwylwyr PSBs yng Nghymru o'r farn bod PSBs yn gyffredinol yn darparu *'rhaglenni a chynnwys creadigol o ansawdd uchel'* (71%), *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys'* (70%) a *'rhaglenni a chynnwys a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU'* (69%) *'yn dda'*[14]. Dywedodd dau o bob tri o wylwyr yng Nghymru fod PSBs yn darparu *'rhaglenni a chynnwys sy'n portreadu'r wlad rydw i'n byw ynddi yn y DU'* yn dda (66%). Dywedodd tua thri gwyliwr o bob pump (61%) fod PSBs yn darparu *'rhaglenni a chynnwys sy'n adlewyrchu bywyd pobl fel fi'.*

[12] Mae'r sampl ar gyfer Olrhain PSM Plant Ofcom yn cynnwys plant 3-16 oed. Ar gyfer plant 3-7 oed mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn ateb y cwestiynau ar eu rhan tra bod plant 8-16 oed yn ateb y cwestiynau eu hunain. Pan fyddwn yn trafod ymatebion plant 3-16 oed drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at atebion y plant hŷn eu hunain (8+) a rhieni/gwarcheidwaid plant iau (3-7).

[13] Sylwch fod maint y sylfaen yn fach (78).

[14] Mae Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion Ofcom yn defnyddio cwestiynau sy'n gofyn i ymatebwyr ddweud pa mor 'dda' neu 'wael' mae nodweddion gwahanol yn cael eu darparu, gan ddefnyddio graddfa 1-10 lle mae 1 yn golygu gwael dros ben a 10 yn golygu da dros ben. Wrth gyfeirio at 'da' drwy'r adroddiad hwn, mae'n NET o sgoriau 7 i 10.

**Ffigur 19: Darparu nodweddion PSB ymysg oedolion sy'n gwylio PSB: 2025/26**




*Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion. Prif Arolwg. QC13. Gan feddwl am yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd - felly y BBC, ITV (LLOEGR) STV/ ITV (YR ALBAN) ITV Cymru Wales / ITV (CYMRU) UTV/ ITV (GOGLEDD IWERDDON), Channel 4, Channel 5, ac S4C... Pa mor dda neu wael y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd yn darparu... Sylfaen: Y rheini sydd wedi gwylio unrhyw sianel neu wasanaeth ar-alw yn ystod y 6 mis diwethaf yng Nghymru (385). Sgôr net 7-10.*

Wrth edrych ar sut mae PSBs unigol yn darparu nodweddion, gan gyfuno eu sianeli teledu a'u gwasanaethau ffrydio,[15] gwelwn rywfaint o amrywiaeth rhyngddynt. Fel arfer, y nodweddion sy'n cael y sgôr uchaf ar gyfer darlledwyr PSBs yn gyffredinol yw'r rhai sy'n cael sgôr uchel ar draws PSBs unigol, ac mae'r sgôr isaf fel arfer ar gyfer *'rhaglenni a chynnwys sy'n adlewyrchu bywyd pobl fel fi'.*

[15] Wrth ofyn i ymatebwyr roi sgôr i PSBs ar gyfer pob nodwedd, rydym yn gofyn iddynt feddwl am eu sianeli teledu a'u gwasanaeth BVoD gyda'i gilydd (e.e. sianeli teledu'r BBC *a* BBC iPlayer). Mewn fersiynau blaenorol o'r Traciwr PSM, rhoddodd ymatebwyr sgôr i sianeli teledu PSB ar wahân i'w gwasanaeth BVoD, felly i bob pwrpas, roedd gan bob PSB ddwy sgôr wahanol ar gyfer pob nodwedd. Mae'r newid yn fformat y cwestiwn hwn, ochr yn ochr â'r newidiadau i'r fethodoleg, yn golygu nad yw cyfresi amser ar gael, hyd yn oed yn ddangosol.

**Ffigur 20: Canfyddiadau o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (sianeli teledu a BVoD) ymhlith oedolion yng Nghymru: 2025/26**

| | Teledu'r BBC | ITV Cymru Wales/ ITV | Channel 4 | Chanel 5 | S4C |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglenni a chynnwys a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU | 74% | 71% | 66% | 67% | 62% |
| Amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys | 70% | 67% | 64% | 63% | 64% |
| Newyddion a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd | 69% | 64% | 62% | 58% | 63% |
| Rhaglenni a chynnwys sy'n portreadu pobl o gefndiroedd gwahanol | 69% | 65% | 68% | 59% | 63% |
| Rhaglenni a chynnwys creadigol o ansawdd uchel | 68% | 66% | 67% | 67% | 68% |
| Newyddion dibynadwy a chywir | 67% | 65% | 61% | 53% | 72% |
| Rhaglenni a chynnwys sy'n dod â'r genedl at ei gilydd ar gyfer profiad gwylio ar y cyd | 65% | 62% | 58% | 57% | 65% |
| Rhaglenni a chynnwys sy'n portreadu'r wlad rydw i'n byw ynddi yn y DU | 65% | 64% | 61% | 55% | 73% |
| Rhaglenni a chynnwys sy'n annog ac yn helpu pobl i ddysgu am bethau newydd | 62% | 56% | 58% | 56% | 64% |
| Rhaglenni a chynnwys sy'n adlewyrchu bywyd pobl fel fi | 56% | 59% | 58% | 55% | 68% |

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion 2025/6. Prif Arolwg. Cwestiwn NC1-6. Gan feddwl am [ddarlledwr] yn gyffredinol... Pa mor dda neu wael y mae [darlledwr] yn darparu... Sylfaen: Y rheini yng Nghymru a wyliodd... yn ystod y 6 mis diwethaf: BBC TV (338), ITV/ITV Cymru (333), Channel 4 (259) a Channel 5 (249).*

Yn ôl Traciwr PSM Plant Ofcom, mae plant yng Nghymru sy'n defnyddio PSBs yn cytuno eu bod, yn gyffredinol, yn darparu gwahanol nodweddion. Mae hyn yn cynnwys tua dwy ran o dair yn dweud bod PSBs yn darparu *'amrywiaeth eang o raglenni maen nhw'n eu mwynhau'* (67%), *'rhaglenni o ansawdd uchel maen nhw'n eu mwynhau'* (66%) a *'rhaglenni a chynnwys sy'n eu helpu i ddysgu'* (66%).

Fodd bynnag, mae gwahaniaethau wrth edrych ar y PSBs yn unigol. Mae'r BBC yn cael y sgôr uchaf ar draws pob agwedd ar ddarparu, yn fwyaf nodedig dywedodd tua saith o bob deg plentyn ei fod yn darparu *'rhaglenni a chynnwys sy'n eu helpu i ddysgu'* (72%) a *'rhaglenni i blant eu hoedran'* (70%).

**Ffigur 21: Canfyddiadau o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (sianeli teledu a BVoD) ymhlith plant yng Nghymru: 2025/26**

| | BBC | ITV Cymru Wales / ITV | Channel 4 | Channel 5 |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglenni a chynnwys sy'n eu helpu nhw/helpu fi i ddysgu | 72% | 50% | 46% | 50% |
| Rhaglenni ar gyfer plant eu hoedran nhw/fy oedran i | 70% | 54% | 51% | 52% |
| Rhaglenni o ansawdd uchel maen nhw/rydw i'n eu mwynhau | 69% | 56% | 54% | 54% |
| Amrywiaeth eang o raglenni maen nhw/rydw i'n eu mwynhau | 65% | 57% | 49% | 54% |
| Newyddion a gwybodaeth sy'n eu helpu nhw/helpu fi i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU a'r byd | 65% | 49% | 44% | 46% |
| Rhaglenni sy'n dangos plant sy'n byw yn yr un rhan o'r wlad â nhw/fi | 59% | 50% | 48% | 48% |

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Plant 2025/26. Cwestiwn C8a-d. Gan feddwl nawr am [ENW'R PSB] yn unig, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei fod yn darparu'r pethau canlynol i'ch plentyn/i chi? Sylfaen: Defnyddwyr pob gwasanaeth yng Nghymru. BBC (606), ITV Cymru Wales / ITV/ (549), Channel 4 (469), Channel 5 (459).*

Fel y nodwyd uchod, gofynnwyd barn plant am S4C mewn arolwg ar wahân, felly nid oes modd cymharu'r nodweddion ar gyfer S4C â PSBs eraill. Plant yng Nghymru (7-18 oed) sy'n gwylio S4C oedd fwyaf tebygol o gytuno ei fod yn darparu rhaglenni a chynnwys sy'n '*hyrwyddo'r Gymraeg*' (76%) ac sy'n '*cael eu gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru*' (68%). Nhw oedd leiaf tebygol o gytuno bod S4C yn darparu '*newyddion dibynadwy a chywir*' ac '*amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys*' (51% ill dau).

**Ffigur 22: Canfyddiadau o S4C (sianel deledu a BVoD) ymhlith plant yng Nghymru: 2026**

| Cymru | S4C |
|---|---|
| Rhaglenni a chynnwys a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru | 68% |
| Rhaglenni a chynnwys sy’n adlewyrchu bywyd pobl fel fi | 57% |
| Amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys | 51% |
| Rhaglenni a chynnwys creadigol o ansawdd uchel | 53% |
| Newyddion dibynadwy a chywir | 51% |
| Rhaglenni a chynnwys sy’n hyrwyddo’r Gymraeg | 76% |
| Rhaglenni a chynnwys sy’n annog ac yn helpu pobl i ddysgu am bethau newydd | 63% |

*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom o blant 7-17 oed yng Nghymru. QPS11. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod S4C yn darparu’r pethau canlynol i chi. Sylfaen: Gwylwyr S4C (127).*

**Mae gwylwyr S4C yn dweud eu bod yn ei wylio gan ei fod yn cynrychioli diwylliant a bywyd Cymru ac am ei fod yn eu helpu i ddysgu'r Gymraeg**

Eleni, fe wnaethom ystyried safbwyntiau ar S4C yn fanylach mewn dau arolwg ychwanegol (arolwg oedolion ac arolwg plant) i weithio ochr yn ochr â'r Traciwr PSM.

Yn gyntaf, gofynnwyd i oedolion yng Nghymru sy'n gwylio S4C[16] pam eu bod nhw'n ei gwylio. Yr ymatebion uchaf oedd *'mae'n cynrychioli diwylliant a bywyd yng Nghymru'* (36%), *'fy helpu i ddysgu Cymraeg'* (32%), *'dyma'r unig sianel deledu Gymraeg rwy'n gwybod amdani'* (30%) ac *'mae'n bwysig i mi wylio cynnwys Cymraeg'* (29%). Ar gyfer oedolion sy'n gwylio S4C, chwaraeon oedd y math mwyaf cyffredin o gynnwys a oedd yn cael ei wylio (49%), ac yna rhaglenni ffeithiol/rhaglenni dogfen (28%) a drama (26%). Pan ofynnwyd pa raglen oedd orau ganddyn nhw, rygbi (15%) oedd yrateb uchaf.

Pan ofynnwyd i blant rhwng 7 ac 17 oed yng Nghymru sy'n gwylio S4C pam eu bod yn ei wylio, y prif ymateb oedd '*fy helpu i ddysgu Cymraeg*' (31%), ac yna '*rwy'n mwynhau'r rhaglenni teledu*' (28%) ac '*mae'n cynrychioli diwylliant a bywyd yng Nghymru*' (26%). O ran y math o raglenni mae plant yn eu gwylio ar S4C, dywedodd ychydig o dan bedwar plentyn o bob deg (38%) animeiddiadau/cartwnau, dywedodd 34% adloniant/comedi, dewisodd 30% gynnwys addysgol a dewisodd 28% ddrama.

Buom hefyd yn siarad â'r rheini a oedd wedi gwylio S4C yn y gorffennol ond nad oeddent yn ei wylio mwyach, i ddeall pam eu bod wedi rhoi'r gorau i'w wylio. Y prif ymatebion yma oedd '*does gen i ddim diddordeb mewn rhaglenni Cymraeg*' (26%) ac '*mae'n well gen i wylio sianeli eraill*' (23%). Roedd darlun tebyg ymysg plant: y ddau ymateb uchaf ymysg plant 7-18 oed yng Nghymru a oedd yn arfer gwylio sianel teledu S4C ond nad oeddent yn gwneud hynny mwyach oedd: '*Mae'n well gen i wylio sianeli eraill*' (31%) a '*does gen i ddim diddordeb mewn rhaglenni Cymraeg*' (30%).[17] Pan ofynnwyd i'r rhai a ddywedodd wrthym nad oeddent erioed wedi gwylio S4C pam hynny, rhwystr iaith oedd y rheswm mwyaf cyffredin. Ymysg plant, y prif ymateb oedd: *'Dydw i ddim yn siarad Cymraeg yn ddigon da'* (41%) a *'dydw i ddim yn siarad Cymraeg o gwbl'* (37%). Yn yr un modd ar gyfer oedolion: *'Dydw i ddim yn siarad Cymraeg o gwbl'* (59%) oedd y prif ymateb, a '*does gen i ddim diddordeb mewn rhaglenni Cymraeg*' oedd yr ail (35%).

[16] Mae hyn yn cynnwys sianeli teledu S4C, S4C Clic ac S4C ar BBC iPlayer.
[17] Sylwch fod maint y sylfaen yn fach.

## Bodlonrwydd ar SVoD a VSPs

### Mae gwylwyr yng Nghymru yn fodlon iawn ar wasanaethau SVoD a VSPs

Mae Traciwr PSM Oedolion Ofcom yn dangos bod lefelau bodlonrwydd ar gyfer gwasanaethau SVoD yn uchel. Roedd dros bedwar o bob pump yn fodlon ar NOW (86%), Disney+ (85%), Netflix (83%) ac Amazon Prime Video (83%).

Mae’r Traciwr PSM Plant yn dangos bod dros naw o bob deg plentyn (3-16 oed) yng Nghymru sy’n gwylio’r gwasanaeth yn dweud eu bod yn ‘hoffi’ Netflix (95%) a Disney+ (92%) ac yna tua phedwar o bob pump (81%) a ddywedodd eu bod yn hoffi Amazon Prime Video. Dywedodd tua dwy ran o dair (65%) eu bod yn hoffi Apple TV+, Paramount+ a Sky On Demand, neu Sky Go neu Sky Kids. Dywed dros hanner (55%) eu bod yn hoffi NOW.

Yn ogystal, dangoson ni i oedolion ystod o nodweddion y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel arfer yn gysylltiedig â nhw a gofynnwyd iddynt ddewis pa ddarlledwyr a gwasanaethau yr oedden nhw'n meddwl bod pob disgrifiad yn berthnasol iddyn nhw. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis cymaint o ddarlledwyr a gwasanaethau ag yr oedden nhw'n eu hoffi ar gyfer pob disgrifiad. Roedd y BBC yn ymddangos yn y tri uchaf ar draws y rhan fwyaf o ddisgrifiadau. Mae’r BBC yn y safle cyntaf yng Nghymru o ran ‘*ansawdd uchel*’ (55%)[18] a ‘*cynnwys sy’n berthnasol i mi*’ (53%).[19] Mae Netflix hefyd yn gwneud yn dda, gan ei fod yn gysylltiedig â’r rhan fwyaf o ddisgrifiadau gan gynnwys ‘*cynnig amrywiaeth eang o wahanol fathau o gynnwys*’ (57%),[20] ‘*arloesol’ (cyflwyno syniadau, rhaglenni neu fformatau newydd*’ (45%)[21] a ‘*cynnig rhywbeth unigryw na allaf ddod o hyd iddo yn unman arall*’ (41%).[22]

[18] Wedi’i ddilyn gan Netflix (50%) ac ITV (39%).
[19] Wedi’i ddilyn gan Netflix (51%) ac ITV (43%).
[20] Wedi’i ddilyn gan y BBC (48%) ac ITV (40%).
[21] Wedi’i ddilyn gan y BBC (40%) a Channel 4 (38%)
[22] Wedi’i ddilyn gan y BBC (30%) a Channel 4 (27%).

**Ffigwr 23: Cyfran yr oedolion ar-lein yng Nghymru sy'n cysylltu gwasanaeth penodol â'r disgrifiadau cynnwys**

| Datganiad | BBC | ITV Cymru Wales /ITV | Channel 4 | Channel 5 | Netflix | YouTube | Amazon Prime Video | NOW | Disney+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ansawdd uchel | **55%** | **39%** | 37% | 29% | **50%** | 23% | 36% | 12% | 31% |
| Yn cynnig cynnwys creadigol | **43%** | 35% | **39%** | 31% | **40%** | 32% | 29% | 10% | 21% |
| Arloesol (yn cyflwyno syniadau, rhaglenni neu fformatau newydd) | **40%** | 31% | **38%** | 29% | **45%** | 25% | 26% | 9% | 23% |
| Yn cynnig safbwynt gwahanol i'm safbwynt fy hun | **33%** | **25%** | **27%** | 20% | 22% | 22% | 15% | 5% | 10% |
| Yn cynnig amrywiaeth o safbwyntiau | **46%** | **34%** | **33%** | 28% | 25% | 26% | 16% | 7% | 12% |
| Yn ddiduedd (heb ffafrio un ochr dros y llall) | **33%** | **29%** | 23% | 16% | **25%** | 21% | 15% | 8% | 11% |
| Cynnwys sy'n berthnasol i mi | **53%** | **43%** | 36% | 31% | **51%** | 37% | 35% | 10% | 27% |
| Yn cymryd risgiau gyda chynnwys | **21%** | 15% | **34%** | 20% | **32%** | 20% | 19% | 6% | 7% |
| Yn cynnig ystod eang o wahanol fathau o gynnwys | **47%** | **40%** | 37% | 33% | **57%** | 38% | 38% | 14% | 28% |
| Yn cynnig rhywbeth unigryw na allaf ddod o hyd iddo yn unman arall | **29%** | 22% | **27%** | 25% | **41%** | 24% | 26% | 10% | 20% |
| Dibynadwy | **42%** | **40%** | **31%** | 27% | 30% | 23% | 24% | 11% | 19% |
| Yn fy ysbrydoli i roi cynnig ar weithgareddau, hobïau neu ddiddordebau newydd | **26%** | **22%** | 17% | 15% | **22%** | **30%** | 15% | 3% | 7% |

*Ffynhonnell: Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion Ofcom 2025/26. Arolwg Atodol. Cwestiwn C1A. Ar gyfer pob disgrifiad, dewiswch logo y darlledwyr a'r gwasanaethau rydych chi'n meddwl bod pob disgrifiad yn berthnasol iddynt. Maint y sylfaen: Pob ymatebydd yng Nghymru (253).*

Safle Cyntaf
Ail Safle
Trydydd Safle

Mae'r traciwr hefyd yn gofyn i oedolion ddewis y darlledwyr neu'r gwasanaethau ffrydio sy'n darparu gwahanol fathau o gynnwys orau yn eu barn nhw. Yng Nghymru, mae'r BBC yn tueddu i gael ei ddewis fwyaf am ddarparu gwahanol fathau o gynnwys yn y ffordd orau; mae hyn yn debyg i wledydd eraill a'r DU drwyddi draw. Er enghraifft, roedd wyth o bob deg (80%) o'r holl oedolion wedi dewis y BBC fel yr un a oedd yn darparu'r '*newyddion*' orau, ac yna ITV (54%) a Channel 4 (42%). Dewisodd ychydig dros saith o bob deg (71%) y BBC am ddarparu '*drama Brydeinig*' orau, ac yna ITV (58%) a Channel 4 (38%). Mae PSBs yn perfformio'n dda ar gyfer y rhan fwyaf o'r genres rydym yn holi amdanyn nhw, er bod Netflix, Amazon Prime Video a Disney+ yn cael eu hystyried fel y rhai gorau am ddarparu cynnwys 'comedi UDA' a 'drama UDA' i wylwyr yng Nghymru a'r DU yn ehangach.

**Ffigwr 24: Cyfran yr oedolion ar-lein yng Nghymru sy'n cysylltu gwasanaeth penodol â phob genre**

| Genre | BBC | ITV Cymru Wales /ITV | Channel 4 | Netflix | Channel 5 | YouTube | Amazon Prime Video | NOW | Disney+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Newyddion | 80% | 54% | 42% | 4% | 27% | 10% | 4% | 7% | 3% |
| Drama Brydeinig | 71% | 58% | 38% | 25% | 34% | 10% | 15% | 5% | 7% |
| Rhaglenni materion cyfoes | 63% | 38% | 37% | 8% | 20% | 8% | 7% | 6% | 3% |
| Rhaglenni dogfen | 60% | 33% | 44% | 38% | 30% | 16% | 21% | 7% | 14% |
| Comedi Brydeinig | 65% | 50% | 36% | 20% | 22% | 12% | 13% | 7% | 6% |
| Chwaraeon byw | 63% | 46% | 20% | 6% | 14% | 7% | 23% | 15% | 4% |
| Gwyddoniaeth a natur | 59% | 22% | 25% | 13% | 20% | 13% | 13% | 4% | 12% |
| Rhaglenni plant | 52% | 32% | 12% | 31% | 15% | 21% | 18% | 6% | 46% |
| Cwisiau/sioeau gemau | 53% | 62% | 35% | 8% | 25% | 7% | 7% | 3% | 4% |
| Celfyddydau a cherddoriaeth | 47% | 17% | 20% | 11% | 16% | 23% | 11% | 4% | 7% |
| Crefydd | 29% | 9% | 7% | 7% | 6% | 9% | 3% | 2% | 3% |
| Drama UDA | 14% | 12% | 12% | 53% | 27% | 12% | 33% | 15% | 26% |
| Comedi UDA | 11% | 11% | 14% | 45% | 19% | 16% | 28% | 12% | 22% |

*Ffynhonnell: Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Oedolion Ofcom 2025/26. Arolwg Atodol. Cwestiwn C1A. Ar gyfer pob math o raglen, dewiswch logos y darlledwyr neu'r gwasanaethau rydych chi'n meddwl sy'n darparu'r math hwnnw o gynnwys orau. Dewiswch gynifer neu gyn lleied ag y credwch fod y disgrifiad yn berthnasol iddynt, neu ddim. Maint y sylfaen: Pob ymatebydd yng Nghymru (253).*

| |
|---|
| Safle Cyntaf |
| Ail Safle |
| Trydydd Safle |

# Cynnwys teledu a fideo ar gyfer Cymru ac o Gymru

**Sut rydym yn adrodd ar wariant ar raglenni**

Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn ymdrin â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn ogystal â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y wlad a'u darlledu ar draws y DU. Mae’n canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf, sef rhaglenni a gomisiynir gan sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, neu ar ei chyfer, gyda’r bwriad o’u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn y flwyddyn gyfeirio. Mae gwariant ar y cynnwys hwn yn cynnwys yr holl gostau a wynebir gan y darlledwr sy'n gysylltiedig â chreu rhaglenni. Mae’r rhain yn cynnwys costau cynhyrchu uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer cynyrchiadau mewnol a chostau trwyddedu ar gyfer rhaglenni a gomisiynir, ond nid yw’n cynnwys costau sy’n gysylltiedig â marchnata a dosbarthu.

**Sut rydym yn cyflwyno data ariannol**

Cyflwynir data ariannol a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn mewn termau nominal, sy’n golygu nad yw data hanesyddol wedi cael ei addasu i ystyried chwyddiant. Yn ein hadroddiad Farchnad Cyfathrebiadau rhyngweithiol, gall defnyddwyr weld data ariannol mewn termau nominal neu ‘real’ (wedi’i addasu yn ôl CPI), gyda defnyddwyr yn gallu symud yn hawdd rhwng y ddau.

## Fe wnaeth gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru gynyddu 6%

O’r cyfanswm o £35.1m o wariant yn 2025 ar raglenni sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf ac sy’n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru, roedd dros hanner (£20m neu 57%) ar raglenni nad ydynt yn ymwneud â newyddion/materion cyfoes. Dyma’r gwariant uchaf ar y categori hwn o raglenni ers 2022 (£20.3m).

Materion cyfoes oedd â’r gostyngiad mwyaf mewn gwariant ar raglenni sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf, i lawr 49.5% o un flwyddyn i'r llall i £1.9m. Gostyngodd gwariant newyddion 0.6% i £13.2m, swm sy’n dal yn uwch nag mewn unrhyw flwyddyn arall rhwng 2019 a 2023.

**Ffigur 25: Gwariant PSBs (£m) ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru, yn ôl genre: 2019-2025**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Fe wnaeth gwariant PSBs ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru gynyddu yn 2025

Roedd y cynnydd yn y gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi'i sbarduno gan y BBC, ac mae gwariant y BBC ar gyfer Cymru wedi cynyddu o £26.7m yn 2024 i £28.8m yn 2025 (i fyny 7.6%).[23] Roedd gwariant ITV ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi cynyddu 1.1% i £6.4m yn 2025. Fel y dangosir gan y cyfansymiau PSB cyfun uchod, roedd y cynnydd ar gyfer y ddau ddarlledwr wedi'i sbarduno'n bennaf gan raglenni nad ydynt yn ymwneud â newyddion/materion cyfoes.

[23] Gall hyn gynnwys rhai cyd-gomisiynau rhwng gwasanaethau rhwydwaith y BBC a gwasanaethau heb fod ar y rhwydwaith. Ers 2022, os cafodd rhaglenni o'r fath eu darlledu ar wasanaethau optio allan rhanbarthol yn gyntaf, mae'r gwariant yn cael ei gofnodi fel rhan o wariant rhaglenni rhanbarthol y BBC.

**Ffigur 26: Gwariant y BBC ac ITV Cymru (£m) ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf heb fod ar y rhwydwaith yng Nghymru: 2019-2025**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Roedd oriau'r BBC o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng 3% i 583 awr

Yn y flwyddyn yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2024, roedd y gostyngiad yn allbwn y BBC wedi'i sbarduno'n bennaf gan newyddion, gan gyfrif am 16 o'r 21 awr a gollwyd ar draws pob genre yn 2025. Fodd bynnag, roedd newyddion yn dal i gyfrif am 54% o allbwn BBC Cymru, cyfran sydd wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2022. Materion cyfoes welodd y gostyngiad cyfrannol mwyaf (20.6%, neu 7 awr) gyda llai o oriau o *BBC Wales Live* a *Politics Wales*, tra bod rhaglenni nad ydynt yn ymwneud â newyddion/materion cyfoes wedi cynyddu ychydig 0.8% (2 awr).

**Ffigur 27: Oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru, yn ôl genre: 2019-2025**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Roedd ITV Cymru wedi darlledu 353 awr o gynnwys sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru yn 2025

Roedd rhaglenni newyddion yn cyfrif am 78% (275 awr) o allbwn ITV Cymru a gafodd ei ddangos am y tro cyntaf yn 2025. Roedd materion cyfoes yn cynrychioli 17% o’r allbwn (60 awr), ac roedd rhaglenni nad ydynt yn ymwneud â newyddion na materion cyfoes yn cyfrif am 5% (18 awr). Mae cydbwysedd yr allbwn ar draws y categorïau hyn wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, gyda newyddion yn cyfrif yn gyson am y rhan fwyaf o raglenni sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf. Oherwydd newid methodolegol a gyflwynwyd eleni, nid oes modd cymharu allbwn ITV yn 2025 yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol.

**Ffigur 28: Oriau ITV Cymru o gynnwys gwreiddiol o’r DU sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru, yn ôl genre: 2019-2025**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. O 2025 ymlaen, roedd addasiadau ym methodoleg ITV ar gyfer cyfrifo allbwn y gwledydd a’r rhanbarthau - o ganlyniad, nid oes modd cymharu 2025 yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol.*

## Cynnwys rhwydwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru

Rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (ar wahân i S4C) wneud rhaglenni mewn amrywiaeth o leoedd o amgylch y DU i'w darlledu ar eu sianeli teledu rhwydwaith. Mae gan y darlledwyr gwotâu sy'n ymwneud â chyfran yr oriau cymwys a chyfran y gwariant cymwys y mae’n rhaid ei phriodoli i ardaloedd y tu allan i Lundain.[24] Mae gan y BBC gwotâu unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU ac mae gan Channel 4 gwota ‘y tu allan i Loegr’ hefyd. Nid oes gofyniad penodol i ITV na Channel 5 gynhyrchu cynnwys y tu allan i Loegr.

Ar draws pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn 2025, cafodd 5.6% o wariant rhwydwaith cymwys ar raglenni sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf ei neilltuo i raglenni sy’n cyfrif fel cynyrchiadau Cymru - cynnydd o’i gymharu â 2024 ac yn uwch na phob blwyddyn ers 2022. I’r gwrthwyneb, gostyngodd

[24] Mae oriau a gwariant ‘cymwys’ yn cyfeirio at gyfanswm yr allbwn a’r buddsoddiad a ystyrir tuag at gwotâu. Yn achos cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol, mae hyn yn cyfeirio at raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, ac eithrio rhaglenni newyddion, rhaglenni sy'n cael eu prynu a chynnwys sy'n hunan-hyrwyddo.

cyfran yr oriau rhwydwaith cymwys i'w darlledu am y tro cyntaf a briodolir i gynyrchiadau yng Nghymru o 6.2% yn 2024 i 4.9% yn 2025, gostyngiad o 1.3 pwynt canran.

**Ffigur 29: Cyfran (%) yr oriau a'r gwariant rhwydwaith cymwys y tu allan i Lundain, pob PSB gyda'i gilydd: 2017-2025**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Cynyddodd y BBC, Channel 4 a Channel 5 gyfran eu gwariant yng Nghymru yn 2025

Fe wnaeth y BBC, sy'n cynhyrchu'r gyfran fwyaf o gynnwys rhwydwaith cymwys yng Nghymru, gynyddu cyfran ei wariant wedi'i neilltuo i Gymru i 9.1% yn 2025, gan ostwng cyfran ei oriau i 8.6%. Cafodd y cynnydd hwn mewn gwariant ei sbarduno gan deitlau drama a oedd yn cyfrif fel rhai a wnaed yng Nghymru, a oedd yn cynnwys *Dope Girls* a'r gyfres a ddeilliodd o Doctor Who, *The War Between the Land and the Sea*. Cyfrannodd y rhaglen adloniant ffeithiol, *DIY SOS*, rhaglen adloniant yn seiliedig ar wyddbwyll *Chess Masters*: *The Endgame* a'r ddarpariaeth o Gwpan Rygbi'r Byd y Merched hefyd at y gwariant a ddyrannwyd i Gymru yn 2025. Fodd bynnag, nid yw cynnydd mewn gwariant bob amser yn golygu mwy o raglenni, ac fe welwyd yr oriau y mae'r BBC yn eu dyrannu i Gymru yn gostwng ar wahân yn sgil symud y cynyrchiadau snwcer o Gymru i'r Alban.

Yn 2025, roedd Channel 4 yn adlewyrchu'r un duedd ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith yng Nghymru: cyfran uwch o wariant (4.6%) ochr yn ochr â chyfran is o allbwn (8.1%). Un rheswm dros y gostyngiad mewn oriau o un flwyddyn i'r llall oedd bod y Gemau Paralympaidd wedi cael eu cynnal yn 2024, cynhyrchiad oedd yn gymwys i gael ei gwneud yng Nghymru, gan gynyddu ffigur y flwyddyn honno. Mae enghreifftiau eraill o raglenni Channel 4 sy'n gymwys i gael eu gwneud yng Nghymru yn cynnwys y gyfres gomedi sy'n dychwelyd, *The Change* a'r sioe eiddo *Worst House on the Street*.

Mae cyfran yr oriau a'r gwariant cymwys a ddyrannwyd i Gymru gan ITV yn dal yn is o lawer nag yn 2020 a 2021, pan ffilmiwyd *I'm a Celebrity... Get Me Out of Here!* yng Nghymru yn hytrach nag yn Awstralia, oherwydd Covid-19, er bod canran ITV o oriau a gwariant cymwys wedi cynyddu ychydig ers 2022. Mae cyfran Channel 5 o'r gwariant rhwydwaith sy'n cael ei neilltuo i gynyrchiadau yng Nghymru wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf i 1.1%.

**Ffigur 30: Cyfran (%) y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys wedi'i neilltuo i Gymru, yn ôl PSB: 2020-2025**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

# Radio a sain

## Datblygiadau yn y farchnad

### BBC Cymru

Mae BBC Cymru yn darparu gwasanaethau radio yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru a BBC Radio Cymru 2. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys rhaglenni newyddion, cerddoriaeth a llafar. Mae BBC Sounds yn parhau i fod yn llwyfan dosbarthu pwysig; yn 2025/26, roedd dros 75,000 o gyfrifon gweithredol wythnosol yn gwrando ar gynnwys BBC Cymru.[25]

### DAB ar raddfa fach

Mae DAB ar raddfa fach yn parhau i gynnig cyfleoedd i orsafoedd llai ac arbenigol yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n darlledu yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae chwe amlblecs DAB ar raddfa fach ar yr awyr yng Nghymru: yng Nghaerdydd, Merthyr a Rhondda Cynon Taf, Gogledd Sir Benfro, De Sir Benfro, Casnewydd a Chas-gwent, a Wrecsam. Mae'n rhaid i'r sawl y dyfernir DAB iddynt yn Abertawe ddechrau darlledu eu gwasanaeth erbyn 27 Medi 2026 fan bellaf.

### Y Gronfa Radio Cymunedol

Mae'r Gronfa Radio Cymunedol yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i'r sector. Ar gyfer rownd gyllido 2025-2026, darparodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) £900,000, gyda dros £1m yn cael ei ddosbarthu, yn dilyn dyraniadau ychwanegol a chronfeydd a ddychwelwyd. Yn gynharach eleni, dyfarnodd Ofcom gyllid i dair gorsaf yng Nghymru: derbyniodd Bro Radio, Môn FM a Wrexham City Radio gyllid a fydd yn darparu rolau cefnogi, hyfforddiant a phrosiectau cynaliadwyedd ehangach yn y sector.

### Radio masnachol

Newidiodd Deddf y Cyfryngau 2024 sut mae'n ofynnol i Ofcom reoleiddio radio masnachol. O ganlyniad i hyn bydd gofyniad newydd bydd yn rhaid i orsafoedd analog masnachol lleol yng Nghymru ddarlledu newyddion a gwybodaeth leol. Bydd angen i newyddion lleol hefyd gynnwys 'newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol'. Daw'r gofynion hyn i rym yn ystod hydref 2027 ar gyfer y rhan fwyaf o ddarlledwyr. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid i newyddion lleol gynnwys straeon gan newyddiadurwyr sy'n gweithio'n gorfforol yng Nghymru a rhaid iddynt ganolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar wrandawyr lleol.

## Argaeledd a darpariaeth radio

Roedd y ddarpariaeth DAB genedlaethol a lleol ledled Cymru ym mis Mawrth 2026 ar yr un lefel ag yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, cynyddodd y ddarpariaeth DAB ar raddfa fach i 31.1% o gartrefi yng Nghymru, o gymharu â 30.7% yn y flwyddyn flaenorol.

[25] Data BBC Cymru.

**Ffigur 31: Darpariaeth DAB ym mis Mawrth 2026**

| | | BBC | Masnachol | | | Ar raddfa fach |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Digital One | Sound Digital | DAB lleol | |
| **Y DU** | Cartrefi | 97.4% | 91.7% | 82.6% | 92.0% | 52.7% |
| | Priffyrdd | 87.4% | 80.2% | 72.6% | 76.8% | Heb ei Fesur |
| **Lloegr** | Cartrefi | 98.4% | 94.8% | 86.7% | 93.4% | 55.8% |
| | Priffyrdd | 94.5% | 93.9% | 89.8% | 87.4% | Heb ei Fesur |
| **Yr Alban** | Cartrefi | 95.3% | 81.7% | 69.0% | 85.4% | 40.1% |
| | Priffyrdd | 69.1% | 45.5% | 33.6% | 45.6% | Heb ei Fesur |
| **Cymru** | Cartrefi | 92.2% | 67.5% | 56.9% | 83.1% | 31.1%[26] |
| | Priffyrdd | 78.1% | 53.3% | 37.7% | 61.9% | Heb ei Fesur |
| **Gogledd Iwerddon** | Cartrefi | 87.3% | 85.4% | 56.8% | 87.5% | 39.1% |
| | Priffyrdd | 79.3% | 86.9% | 55.0% | 87.8% | Heb ei Fesur |

*Ffynhonnell: Arqiva, BBC, Ofcom. Sylwch: Mesurir y ddarpariaeth SSDAB ar sail cartrefi yn unig.*

# Gwrando ar radio byw yng Nghymru

**O ble daw ein data**

Daw ein ffigurau ar gyfer cyrhaeddiad gwasanaethau sain o'n Harolwg Sain, y mae ei gyfranogwyr yn 16 oed a hŷn. Daw ffigurau ar y gyfran sy'n gwrando ar wahanol fathau o sain gan IPA TouchPoints, a daw ffigurau ar wrando byw ar y radio gan RAJAR, sy'n defnyddio cyfranogwyr 16 oed a hŷn a 15 oed a hŷn yn y drefn honno. Rydym wedi defnyddio'r term 'oedolion' yma wrth gyfeirio at y tair ffynhonnell. Cymerwch gip ar yr Atodiad i gael rhagor o fanylion am y fethodoleg a ffynonellau'r data.

## Gwrando'n gyffredinol ar y radio

Cyrhaeddiad wythnosol radio yng Nghymru ar gyfer 2025/26 oedd 90% o oedolion, ffigur sydd wedi bod yn gymharol gyson ers nifer o flynyddoedd.  Mae arolwg RAJAR yn dangos gostyngiad yng nghyfran y bobl ifanc yng Nghymru sy'n gwrando ar y radio dros y blynyddoedd diwethaf, sef 76% ar hyn o bryd o'i gymharu ag 82% yn 2021/22. Mae gwahaniaethau yn y patrymau tuedd ar draws y

[26] Adroddwyd y ffigur ar gyfer darllediadau DAB ar raddfa fach yng Nghymru yn anghywir yn adroddiad Media Nations 2025 fel 35.1%. Y ffigur cywir ar gyfer Mawrth 2025 yw 30.7%. Er na lansiwyd amlblecsau pellach rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, bu cynnydd bach yng Nghymru o amlblecsau wedi'u lleoli yn Lloegr.

grwpiau oedran eraill, gyda phobl 35-44 oed yn gostwng dros y pedair blynedd diwethaf (95% i 89%) tra bu cynnydd ar draws y grwpiau oedran dros 44 oed.

**Ffigur 32: Cyrhaeddiad wythnosol radio yng Nghymru, yn ôl oedran: 2019/20 – 2025/26**




*Ffynhonnell: RAJAR; TSA BBC Radio Wales; Ch1 gyda phwysoliad 12 mis.*

Wrth gymharu'r gwrando yn ôl sector yng Nghymru, mae gorsafoedd y BBC ledled y DU wedi gostwng o 49% o gyfran y farchnad yn 2019/20 i 41% dros y flwyddyn ddiwethaf. I'r gwrthwyneb, mae gorsafoedd masnachol ledled y DU wedi cynyddu eu cyfran o'r farchnad i dros 27% o lai nag 20% chwe blynedd yn ôl. Bu newid mewn patrymau gwrando lleol, gyda gorsafoedd y BBC yn gostwng a gorsafoedd masnachol yn cynyddu yn ystod y cyfnod hwn.

**Ffigur 33: Cyfran y gwrando yn ôl sector, yng Nghymru: cymharu 2019/20 â 2025/26**




*Ffynhonnell: RAJAR; TSA BBC Radio Wales; Ch1 gyda phwysoliad 12 mis.*

Gan edrych ar sut mae gwrando yng Nghymru yn amrywio ar draws grwpiau darlledwyr masnachol, bu cynnydd yn gyffredinol dros y chwe blynedd diwethaf, ond yn benodol ar gyfer Global (25.2% o gyfran y gwrando yn 2025/6 o'i gymharu â 19.5% yn 2019/20) a Bauer (8.4% i 13.2%). Mae nifer y

gorsafoedd radio sydd ar gael wedi ehangu'r dewis i wrandawyr drwy gynnig amrywiaeth o genres cerddoriaeth gwahanol ar lwyfannau digidol.

**Ffigur 34: Cyfran yr oriau gwrando yn ôl grŵp darlledwyr yng Nghymru: cymharu 2019/20 â 2025/26**




*Ffynhonnell: RAJAR; TSA BBC Radio Wales; Ch1 gyda phwysoliad 12 mis.*

Mae'r ffordd mae pobl yng Nghymru yn gwrando ar y radio wedi newid yn sylweddol, hyd yn oed dros y pedair blynedd diwethaf ers i seinyddion clyfar gael eu hychwanegu at arolwg RAJAR. Yn 2021/22, roedd mwy na dwy ran o bump (41.1%) o'r gwrando drwy set radio AM/FM, mwy na'r gwrando drwy setiau DAB (35.9%), ac roedd 17.2% ar-lein. Yn ystod y deuddeg mis diweddaraf, mae DAB yn cyfrif am dros draean o'r gwrando (36.5%), gyda gwrando ar-lein ac analog bellach yn debyg i'w gilydd (29.2% a 30.8% yn y drefn honno).

**Ffigur 35: Cyfran yr oriau gwrando yn ôl llwyfan yng Nghymru: cymharu 2019/20 â 2025/26**




*Ffynhonnell: RAJAR; TSA BBC Radio Wales; Ch1 gyda phwysoliad 12 mis.*

Gan edrych ar ble mae pobl yng Nghymru yn gwrando ar y radio, mae'r rhan fwyaf o'r amser hwn gartref, sy'n cyfrif am 64% o'r holl oriau wythnosol. Mae cyfran yr amser a dreulir yn gwrando ar y

radio yn y gwaith wedi gostwng, sydd efallai'n adlewyrchu'r ffaith bod rhai pobl wedi newid i weithio mwy o gartref. Mae'r amser a dreulir yn gwrando ar y radio mewn car neu gerbyd arall wedi cynyddu ychydig dros y pedair blynedd diwethaf, ac erbyn hyn mae'n cyfrif am oddeutu chwarter yr oriau gwrando. Mae ychydig dros ddwy ran o bump (22%) o wrandawyr radio yng Nghymru yn gwrando ar y radio mewn cerbyd yn unig; yn 2019/20 roedd y ffigur hwn yn 15%, sy'n dangos pwysigrwydd gwrando yn y car ar y diwydiant radio.

Fodd bynnag, wrth i bobl ddod i arfer â chael gafael ar sain mewn ffyrdd eraill yn eu ceir, gallai hyn newid dros amser, er ei bod yn ymddangos bod Cymru ar ei hôl hi ryw fymryn o gymharu â'r Cenhedoedd eraill. Yn ein Harolwg Sain diweddaraf, fe wnaethom ofyn i bobl a oeddent wedi defnyddio cynorthwyydd llais yn ystod y tri mis diwethaf, a dywedodd 48% o oedolion yng Nghymru eu bod wedi defnyddio cynorthwyydd llais (52% ledled y DU). Ymysg y rheini yng Nghymru a oedd wedi defnyddio cynorthwywyr llais, dywedodd 9% eu bod wedi'i ddefnyddio i wrando ar y radio drwy eu ffôn clyfar yn y car (o'i gymharu â 12% ledled y DU a 19% yn yr Alban).

**Ffigur 36: Cyfran yr oriau gwrando yn ôl lleoliad yng Nghymru: cymharu 2019/20 â 2025/26**




*Ffynhonnell: RAJAR; TSA BBC Radio Wales; Ch1 gyda phwysoliad 12 mis.*

# Sain ar-lein yng Nghymru

## Mae 60% o oedolion yng Nghymru yn defnyddio gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth a radio bob wythnos

Mae sain yn gyfrwng pwysig yng Nghymru, gyda 95% o oedolion yn gwrando'n wythnosol ar gynnwys ac yn defnyddio cyfartaledd o 3.4 math gwahanol o sain bob wythnos, o'r rhestr a ddangosir yn Ffigur 37. Y gwasanaeth sy'n cael ei ddefnyddio amlaf ar gyfer ffrydio cerddoriaeth yw Spotify, gyda 44% o oedolion yng Nghymru yn gwrando bob wythnos ar gerddoriaeth drwy fersiynau premiwm neu am ddim y darparwr hwn.

**Ffigur 37: Cyrhaeddiad wythnosol gwahanol fathau o sain, yn ôl gwlad: 2026**

| | Unrhyw sain | Sain cerddoriaeth | Sain lafar |
|---|---|---|---|
| DU | 93% | 90% | 53% |
| Gogledd Iwerddon | 92% | 90% | 56% |
| Yr Alban | 94% | 89% | 57% |
| Cymru | 95% | 90% | 53% |




*Ffynhonnell: Arolwg Sain Ofcom. C1 Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n gwrando ar unrhyw un o'r canlynol? Sylfaen: Pob oedolyn a ymatebodd NET: Wythnosol. *Ar gyfer gwrando yn y cefndir.*

**Ffigur 38: Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth ar-lein, yn ôl gwlad: 2026**

| | DU | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Spotify (net) | 49% | 49% | 52% | 44% |
| YouTube (net) | 38% | 44% | 40% | 31% |
| Amazon Music (net) | 19% | 19% | 18% | 20% |
| BBC Sounds | 15% | 14% | 15% | 14% |
| Apple Music | 15% | 12% | 15% | 13% |

*Ffynhonnell: Arolwg Sain Ofcom 2026. C1 Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n gwrando ar unrhyw un o'r canlynol? Sylfaen: Pob oedolyn a ymatebodd NET: Wythnosol.*

## Mae dros hanner yr amser a dreulir yn gwrando ar sain yng Nghymru yn cael ei dreulio ar radio byw

Mae'r mathau o sain mae pobl yn treulio eu hamser gyda nhw wedi newid yn raddol. Mae gwrando ar radio byw yng Nghymru bellach yn cyfrif am 54% o'r amser sain wythnosol o'i gymharu â 68% yn 2021/22, gostyngiad tebyg i'r hyn a welwyd ledled Prydain Fawr yn gyffredinol dros yr un cyfnod

(64% i 52%). Mae gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth yng Nghymru bellach yn cyfrif am ychydig o dan chwarter yr amser sain bob wythnos.

**Ffigur 39: Cyfran yr amser a dreulir bob wythnos ar *unrhyw* fath o sain: cymharu Cymru â Phrydain Fawr**[27]




*Ffynhonnell: IPA TouchPoints SuperHub.*

# Podlediadau

## Mae llai o bobl yng Nghymru yn gwrando ar bodlediadau nag yng ngwledydd eraill y DU

Mae 23% o oedolion yng Nghymru bellach yn gwrando ar bodlediadau bob wythnos, i fyny o 14% bedair blynedd yn ôl ond yn is nag unrhyw wlad arall yn y DU. O edrych ar grwpiau oedran, mae

[27] Mae arolwg IPA TouchPoints yn cwmpasu Prydain Fawr yn unig (ac eithrio Gogledd Iwerddon) ond mae arolwg RAJAR yn cwmpasu'r DU gyfan.

cyrhaeddiad yn is o lawer ymysg grwpiau oedran hŷn, gyda dim ond 13% o'r rhai sy'n 55 oed a hŷn yn gwrando bob wythnos.

**Ffigur 40: Cyrhaeddiad wythnosol podlediadau dros amser: cymharu 2021/22 â 2025/26**

| | DU | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| 15+ | 27.9% | 24.7% | 27.5% | 23.3% |
| 15-34 | 34.0% | 34.0% | 38.6% | 33.4% |
| 35-54 | 34.1% | 28.1% | 31.9% | 28.3% |
| 55+ | 18.2% | 14.8% | 16.5% | 13.1% |




*Ffynhonnell: RAJAR; TSA BBC Radio Wales; Ch1 gyda phwysoliad 12 mis.*

## Mae'r podlediadau mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn debyg i'r rhai ar draws y DU drwyddi draw

Roedd pedwar o'r pum podlediad uchaf[28] fesul cyrhaeddiad yng Nghymru yn Ch2 2025-Ch1 2026 hefyd yn y pump uchaf ar gyfer y DU gyfan.

[28] *The Joe Rogan Experience, The Diary of A CEO with Steven Bartlett, The Rest is History, The Rest is Politics.*

**Ffigur 41: Y 10 podlediad uchaf yng Nghymru: Ch2 2025 – Ch1 2026**

| | Teitl | Cynhyrchydd | Cyrhaeddiad | Genre |
|---|---|---|---|---|
| **1** | The Joe Rogan Experience | Spotify | 10.5% | Comedi |
| **2** | The Diary of A CEO with Steven Bartlett | The Diary of A CEO | 6.7% | Busnes |
| **3** | Newscast | BBC Radio | 5.6% | Newyddion |
| **4** | The Rest is History | Podlediadau Goalhanger | 4.9% | Hanes |
| **5** | The Rest is Politics | Podlediadau Goalhanger | 4.5% | Newyddion |
| **6** | Americast | BBC | 3.5% | Newyddion |
| **7** | That Peter Crouch Podcast | Tall or Nothing | 2.9% | Chwaraeon |
| **8** | RedHanded | Audioboom | 2.4% | Troseddau Gwir |
| **9** | The Rest is Entertainment | Podlediadau Goalhanger | 2.3% | Teledu a Ffilm |
| **10** | The Overlap | Global | 2.2% | Chwaraeon |

*Ffynhonnell: Edison Podcast Metrics UK, Ch2 2025 – Ch1 2026. Sylfaen: Gwrandawyr podlediadau wythnosol 15 oed a hŷn yng Nghymru (333). Mae'r genres yn adlewyrchu'r prif gategori genre eang a ddewiswyd gan greawdwr y podlediad ar Apple. Podlediadau, fel y'u diffinnir gan Apple. Mae canran yn cyfeirio at ganran y gwrandawyr podlediadau wythnosol sy'n gwrando ar y podlediad.*

## Podlediadau yn y Gymraeg

Mae natur ddatganoledig podledu, a'r gwahaniaethau yn y ffordd y mae pobl yn eu diffinio, yn golygu nad oes un rhestr ddiffiniol o bodlediadau. Fodd bynnag, er mwyn deall cwmpas cyd-destun podlediadau Gymraeg, fe wnaethom ddefnyddio set ddata'r Mynegai Podlediadau, i gael ymdeimlad o nifer y podlediadau yn y Gymraeg. At ei gilydd, fe wnaethom nodi 228 o bodlediadau a oedd yn bodloni ein meini prawf.[29] O ystyried cymhlethdodau nodi a dosbarthu podlediadau, dylid ystyried y ffigur hwn fel un dangosol. Rhestrodd hanner cant o'r rhain 'addysg' fel eu genre cyntaf,[30] gan gynnwys teitlau gan y BBC, S4C a'r cwmni cynhyrchu sain Stiwdiobox, ochr yn ochr â sefydliadau ac unigolion eraill. Roedd llawer o'r podlediadau yn y categori hwn yn ymwneud â dysgu Cymraeg, ond roeddent hefyd yn cynnwys testunau sy'n ymwneud â phynciau eraill, neu o ysgolion unigol. Yn ogystal â dysgu Cymraeg, mae S4C a'r BBC yn cyhoeddi podlediadau ar draws amrywiaeth o genres, yn enwedig yn ymwneud â'u rhaglenni teledu a radio, gan gynnwys trafodaeth wleidyddol (*Gwleidydda*) a phêl-droed (*Pod Sgorio*).

Ymysg y 228 o bodlediadau, canolrif nifer y penodau oedd naw, sy'n awgrymu bod llawer o bodlediadau gwahanol gydag ychydig iawn o benodau. Mae'r podlediadau sydd â'r nifer fwyaf o

[29] O'n rhestr gychwynnol o 348 o borthiannau RSS podlediadau gyda'r tag iaith 'CY' fe wnaethom ddileu teitlau a oedd, ar ôl edrych yn fanwl, yn sbam, neu lle nad oedd tystiolaeth o ddefnyddio'r iaith Gymraeg er gwaethaf defnyddio'r dynodydd iaith CY ym metadata'r RSS. Fe wnaethom gynnwys nifer o bodlediadau y dyrannwyd tagiau iaith RSS ar gyfer Gwyddeleg neu Aeleg iddynt drwy gamgymeriad, a oedd mewn gwirionedd yn Gymraeg. Fe wnaethom hefyd eithrio podlediadau gyda llai na dwy bennod wedi'u lanlwytho. Nodwn y gall metadata iaith anghywir neu goll olygu na chafodd rhai podlediadau Cymraeg eu cyfrif.
[30] Mae modd neilltuo mwy nag un genre i bodlediad. Er mwyn symleiddio'r dadansoddiad, rydym wedi canolbwyntio ar y genre cyntaf a restrir.

benodau wedi’u lanlwytho yn cynnwys podlediad cyfweliadau *Beti a’i Phobol* BBC Radio Cymru, gyda dros 649 o benodau wedi’u rhestru ym mis Ebrill 2026, a phodlediad beicio *Y Dihangiad*, gyda 440 o benodau.

**Ffigur 42: Nifer y podlediadau a nodwyd fel rhai yn y Gymraeg, yn ôl prif gategori**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata Mynegai Podlediadau. Dim ond y podlediadau hynny lle mae prif gategori wedi’i neilltuo (222/228) y mae’r siart yn eu cynnwys. Nid ydym wedi defnyddio hidlydd ar amlder lanlwytho sy’n golygu efallai na fydd rhai o’r teitlau hyn yn lanlwytho’n rheolaidd.*